06.04.23

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Stadiymau'r Byd gyda Jason Mohammad: O'r Cae Ras i'r Azteca!

Pob wythnos, mae miliynau o bobol ar draws y byd yn dilyn yr un ddefod o ymweld â stadiwm i wylio eu tîm. Ennill neu golli, mae'n brofiad unigryw sy'n rhan annatod o'u bywydau.

Mae'r gyfres newydd ar S4C, **Stadiymau'r Byd gyda Jason Mohammad**, wedi bod yn ymweld â rhai o stadiymau a meysydd chwarae mwyaf eiconig y byd, ac mae'r bennod olaf, ar S4C ar nos Iau 20 Ebrill am 9.00, yn rhoi cipolwg i ni ar brofiad diwrnod gêm yn rhai ohonyn nhw.

Y stadiwm cartref y tro hwn yw'r Cae Ras, stadiwm ryngwladol hynaf yn y byd, a chartref clwb pêl-droed Wrecsam ers 1864.

Mae'r stadiwm a'r clwb wedi derbyn lot o sylw yn y ddwy flynedd ddiwethaf ar ôl i ddau seren Hollywood, Ryan Reynolds a Rob McElhenney ei brynu. Collodd CPD Wrecsam ei le yn y gynghrair bêl-droed yn 2008, ac ers hynny mae'r tîm wedi bod yn brwydro i ennill dyrchafiad o'r Gynghrair Genedlaethol. Diolch i fuddsoddiad y ddau actor, mae'r freuddwyd yma yn dechrau edrych o fewn gafael.

Er bod y tymor pêl-droed bellach yn tynnu tuag at ei derfyn, mi aeth Jason i ymweld â'r stadiwm nôl ar ddechrau'r tymor, i'r gêm ryfeddol yn erbyn Torquay United, lle sgoriodd y tîm cartref chwe gôl – eu buddugoliaeth mwyaf o'r tymor hyd yma. Yn gwmni i Jason yn y stand mae Thomas Lewis, neu Tomi Caws i'w ffrindiau, cefnogwr oes ac ysgrifennwr pêl-droed gyda North Wales Live.

Y tu allan i dafarn enwog The Turf, mae'n rhyfeddu at y newid sydd eisoes ar droed, a'r sylw mae'r clwb yn ei dderbyn ar draws y byd:

"Mae'n teimlo'n *weird*, i weld pobl ar Twitter a Facebook o Milwaukee, Chicago, Los Angeles yn siarad am Wrecsam, yn siarad am Paul Mullin, am Jordan Davies. Mae'n amser sbesial i fod yn gefnogwr Wrecsam."

Oddi cartref, mae camerâu y gyfres yn ymweld â stadiwm Brandywell yn Derry, Gogledd Iwerddon, clwb sy'n dangos grym cymuned a ddaeth trwy gyfnod cythryblus y 70au a'r 80au, yn ogystal â diwrnod gêm ar un o gaeau pêl-droed mwyaf trawiadol y byd yn Trogir, Croatia, sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Mae Jason hefyd yn teithio i Ddinas Mecsico i wireddu breuddwyd o wylio gêm yn stadiwm fyd-enwog yr Azteca. Yn cadw cwmni iddo mae Elis Williams, yn wreiddiol o Gaerdydd ond sydd bellach wedi ymgartrefu yn y ddinas. Mae'r ddau yn mwynhau tacos heb eu hail yn un o hoff

taquerias Elis, cyn mynd yn eu blaenau i'r stadiwm am wledd o bêl-droed rhwng timau Club America a Puebla – gornest leol, er bod taith dwy awr yn gwahanu'r ddau dîm.

Yn ôl Elis, mae'r awyrgylch yn y stadiwm yn dangos fod pobl Mecsico wrth eu boddau gyda phêl-droed:

"Mae o mor boblogaidd. Does dim byd mwy na phêl-droed...Efo'r tîm rhyngwladol, fel yng Nghwpan y Byd, mae pawb yn stopio, mae bob dim yn stopio jest i wylio'r gêm...Mae o'n lefelau 'da ni ddim rili'n deall adre. O'n i ddim yn deall yr angerdd cyn cyrraedd Mecsico. Mae pobl jest yn nyts amdana fo, mae o'n *amazing* i weld!"

Mae Jason hefyd wedi'i gyfareddu gan y lle hanesyddol a'i awyrgylch:

"1986 – Maradona draw fan yna – dwi ddim yn gallu credu fy mod i yn yr un stadiwm! A 1970 hefyd – yr hen dîm Brasil – Pelé a'r hanes i gyd!"

Cawn hefyd olwg ryfeddol ar beth all fod yn rhan o ddyfodol stadiymau, sef eSports Arenas. Ers troad y mileniwm, mae'r diwydiant gemau fideo cystadleuol wedi ffrwydro, a bellach, mae'r ffans yn galw am ffyrdd o fedru gwylio eu harwyr – nid dim ond ar eu sgriniau – ond yn fyw.

Yn ystod y bennod hon, cawn ymweld ag Arena Hangzhou yn Tsieina – y gyntaf i gael ei hadeiladu yn y wlad – wrth i dwrnamaint o'r gêm 5th Personality gael ei gynnal o flaen torf sydd yn eu miloedd.

Cafodd yr arena ei godi ar gyfer gemau Asiaidd 2022, a cafodd y penseiri eu hysbrydoli gan ffilmiau 'sci-fi'.

Meddai'r Cyfarwyddwr Ymchwil, Liyu Jang:

"Mae'r arena wedi ei greu i edrych fel rhywbeth arallfydol, bron fel tasai llong ofod yn hofran ar y safle!

"Yr ystafell reoli ddigidol yw 'ymennydd' y ganolfan ac mae'n ganolbwynt i bopeth. Mae safon y dechnoleg sain a goleuo i'r safon uchaf posib, gan roi profiad sinematig 360 gradd i'r gynulleidfa."

Mae twf arenas fel hyn yn dangos sut gall profiadau ynysig gael eu trawsnewid yn rywbeth torfol, sy'n dod â pobl at ei gilydd mewn un lle.

"Sai'n siwr, 'jury's out'!" Meddai Jason, "Un peth sy'n sicr, mae o'n ddiwrnod gêm gwahanol, ond yn ddiwrnod gêm, beth bynnag fo'ch barn."

**Stadiymau'r Byd gyda Jason Mohammad**
**Nos Iau, 20 Ebrill, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg ar gael**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a platfformau eraill**
**Cynhrchiad Cwmni Da i S4C**

06.04.23

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Stadiums of the World with Jason Mohammad: From the Racecourse to the Azteca!

Every week, millions of people across the world perform the same ritual of visiting a stadium to watch their team. Win or lose, it's a unique experience that is an integral part of their lives.

The new series on S4C, **Stadiymau'r Byd gyda Jason Mohammad** (Stadiums of the World with Jason Mohammad), has been visiting some of the world's most iconic stadiums and playing fields, and the final episode, on S4C on Thursday 20 April at 9.00, will give us an insight into the match day experience at some of them.

This time, the home stadium is the Racecourse Ground, the oldest international stadium in the world, and the home of Wrexham Football Club since 1864.

The stadium and the club have received a lot of attention in the last few years after two Hollywood stars, Ryan Reynolds and Rob McElhenney bought it. Wrexham FC lost their place in the football league in 2008, and since then the team has been struggling to gain promotion from the National League. However, thanks to the investment of the two actors, this dream is starting to look within reach.

Although the football season is now coming to an end, Jason went to visit the stadium back at the start of the season, to the amazing game against Torquay United, where the home team scored six goals - their biggest win of the season so far. Accompanying Jason in the stand is Thomas Lewis, or Tomi Caws to his friends, lifelong fan and football writer with North Wales Live.

Outside the famous Turf pub, he marvels at the change that is already underway, and the attention the club is receiving across the world:

"It feels weird, to see people on Twitter and Facebook from Milwaukee, Chicago, Los Angeles talking about Wrexham, talking about Paul Mullin and Jordan Davies. It's a special time to be a Wrexham fan."

Away from home, the series' cameras visit the Brandywell stadium in Derry, Northern Ireland, a club that shows the power of a community that came through the turbulent 1970s and 80s, as well as a matchday at one of football's most stunningly located grounds in Trogir, Croatia, which is a part of an UNESCO World Heritage Site.

Jason also travels to Mexico City to fulfil a dream of watching a game at the world-famous Azteca stadium. Keeping him company is Elis Williams, originally from Cardiff but who has now

settled in the city. The two enjoy incredible tacos at one of Elis' favourite taquerias, before heading to the stadium for a feast of football between Club America and Puebla - a local derby, even though the clubs are separated by a two-hour journey.

According to Elis, the atmosphere in the stadium shows that the people of Mexico love their football:

“It’s so popular. Nothing here is bigger than football...With the international team, like in the World Cup, everything and everyone stops just to watch the game...It's a level that we don’t really appreciate back home. I didn't understand the passion before arriving in Mexico. People are just nuts about it, it's amazing to see!”

Jason is also enchanted by the historic place and its atmosphere:

"1986 – with Maradona’s ‘Hand of God’ goal over there - I can't believe I'm in the same stadium! And 1970, too – the old Brazilian team – Pelé and all the history!”

We also get an amazing look at what could be a part of the future of stadiums, eSport Arenas. Since the turn of the millennium, the competitive video game industry has exploded, and now, the fans are looking for ways to be able to watch their heroes - not just on their screens - but live.

The Hangzhou Arena in China was the country’s first eSports arena – and the series’ cameras film a tournament of the horror-survival game 5th Personality, held in front of a crowd in their thousands.

The arena was built for the 2022 Asian Games, and the architects were inspired by sci-fi films.

Research Director Liyu Jang said:

"The arena has been created to look like something otherworldly, almost as if a spaceship was hovering over the site!

“The digital control room is the arena’s 'brain', where everything is controlled. The quality of the sound and lighting technology is of the highest possible standard, giving the audience a 360-degree cinematic experience."

The growth of eSports arenas shows how a predominantly isolated experience can be transformed, by bringing people together in one place.

"Personally speaking, I’m not sure, 'jury's out'!" Jason said, "One thing's for sure, it's a different matchday, but a matchday nonetheless, whatever your opinion may be.”

**Stadiymau’r Byd gyda Jason Mohammad**
**Thursday, 20 April, 9.00pm**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**